

Gwybodaeth i Arweinwyr

# Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)

# BETH SY’N DIGWYDD PAN FO UNDEBAU ERAILL YN STREICIO (TAFLEN I BENAETHIAID AC ARWEINWYR YSGOL UCAC)

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad i aelodau UCAC sy'n benaethiaid ac yn arweinwyr mewn sefyllfa pan fydd aelodau o undebau eraill yn gweithredu'n ddiwydiannol.

Mae'n dra thebygol y bydd nifer ohonoch yn wynebu sefyllfa yn yr wythnosau nesaf lle bydd aelodau o'ch staff addysgu a rhai o'ch cyd-aelodau ar dimau arwain yn streicio. Yn y ddogfen hon, rydym yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau a allai godi mewn sefyllfa o'r fath?

## 1. Beth y mae'n rhaid i Bennaeth ei wneud pan fo undeb arall heblaw UCAC yn streicio?

Dylai'r undeb sy'n streicio fod wedi eich hysbysu o'i bwriad, gan nodi faint o aelodau sydd ganddi yn eich ysgol chi. Ni fyddant yn nodi enwau eu haelodau ac nid oes yn rhaid i aelodau ddweud wrthy ch a ydynt yn bwriadu streicio ai peidio.

Bydd angen i chi gynnal asesiad risg a phenderfynu a ydych yn a) cau'r ysgol yn gyfangwbl b) cau'r ysgol yn rhannol (i rai dosbarthiadau/blynyddoedd) c) yn cadw'r ysgol ar agor fel arfer.

Mae'n arfer dda cynnal ymgynghoriad ar asesiad risg gyda chynrychiolwyr undebau.

Wrth benderfynu – cofiwch ystyried y gymhareb disgyblion i athrawon, a oes gennych yr arbenigedd angenrheidiol, a oes gennych ddigon o athrawon sydd â chymwysterau cymorth cyntaf, digon o swyddogion tân, rhywun yn gyfrifol am amddiffyn plant a diogelu ayb.

Y brif flaenoriaeth, wrth gwrs, fydd iechyd a diogelwch y disgyblion a bydd angen sicrhau bod gennych y staff angenrheidiol. Ni fydd hawl gennych i ofyn i staff nad ydynt yn streicio gyflawni tasgau ar ran aelodau sy'n streicio. Ni fydd hawl gan staff nad ydynt yn streicio i addysgu na goruchwyllo dosbarthiadau ychwanegol ac ni fydd hawl gofyn iddynt adael gwaith ar gyfer dosbarthiadau eu cydweithwyr sydd ar streic.

Fodd bynnag, os yw rhai o'r unigolion sy'n streicio yn ddeiliaid allweddi ar ran arbennig o'r adeilad neu ar gyfer cyfarpar arbennig, mae hawl gennych i ofyn iddynt roi yr allweddi i chi ar y diwrnod dan sylw.

Wedi i chi benderfynu pa gamau yr ydych yn eu cymryd, bydd angen i chi roi gwybod i'r canlynol:

- Cadeirydd y Llywodraethwyr
- Yr Awdurdod Lleol
- Aelodau staff nad ydynt ar streic
- Rhieni
- Disgyblion
- Cwmnïau bysys

Os ydych yn bwriadu cau'r ysgol, bydd angen rhoi gwybod hefyd i unrhyw ymwelwyr a oedd i fod yn bresennol yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw e.e. athrawon peripatetig, cwmselwyr, asiantaethau allanol, seicolegwyr, gweithwyr ieuentid, gwirfoddolwyr, siaradwyr allanol, unrhyw ysgol arall sy'n rhannu gwasanaethau gyda chi (e.e. os oes disgyblion Chweched ysgol arall yn cael rhai gwersi yn eich ysgol chi a'r cwmni tacsï sy'n eu cludo i'ch ysgol) ayb.

**2. A allaf ofyn i'r sawl nad ydynt yn streicio i ddysgu'n rhithiol ar ddiwrnod y streic?**

Os yw'n golygu gwaith ychwanegol, mae UCAC o'r farn y gall hyn fod yn gofyn i athrawon gyflawni dyletswyddau sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol.

**3. Beth os yw fy mhennaeth yn aelod o undeb sy'n streicio. A oes hawl ganddo/ganddi i ofyn i mi (sy'n Ddirprwy) fod yn gyfrifol am yr ysgol ar y diwrnod dan sylw?**

Gall fod gan bennaeth yr hawl i wneud hynny, fodd bynnag, byddai angen sicrhau bod trosglwyddo effeithiol, o flaen llaw, yn digwydd. Gan mai'r pennaeth sydd yn gyfrifol am agor neu gau yr Ysgol bydd angen i'r pennaeth ddilyn y camau uchod yn 1, gan gynnwys cyflwyno asesiad risg manwl a chyfarwyddyd clir o ran yr hyn a ddylai ddigwydd.

Os ydych yn ddirprwy ac mae'r sefyllfa uchod yn codi, rydym yn eich annog i gysylltu â Swyddfa UCAC.

**4. Beth os yw fy mhennaeth yn aelod o undeb sy'n gweithredu'n brin o streic. A oes hawl ganddo/ganddi i ofyn i mi (sy'n Ddirprwy) gymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwybodaeth am staff sy'n ymgymryd â gweithredu diwydiannol?**

Os yw'r pennaeth yn gweithio, ei g/chyfrifoldeb yw gwneud hynny. Ni fyddai'n addas trosglwyddo'r cyfrifoldeb i ddirprwy.

**5. Beth os yw fy mhennaeth a'r dirprwy yn aelodau o undeb sy'n streicio. A oes hawl ganddo/ganddi ofyn i mi (sy'n Bennaeth Cynorthwyol) fod yn gyfrifol am yr ysgol ar y diwrnod dan sylw?**

Ni ddylai Pennaeth Cynorthwyol gymryd cyfrifoldeb o'r fath, gan nad yw'n rhan o ddisgrifiad swydd Pennaeth Cynorthwyol.

**6. Beth os yw fy mhennaeth a'r dirprwy yn aelodau o undeb sy'n streicio. A oes hawl gan y Pennaeth i ofyn i mi (sy'n Bennaeth Safle) fod yn gyfrifol am yr ysgol ar y diwrnod dan sylw?**

Er eich bod yn gyfrifol am safle, nid ydych yn bennaeth ac felly nid oes gennych gyfrifoldebau cyfreithiol o ran arwain ysgol. Efallai fod eich cytundeb yn nodi rhai dyletswyddau penodol, ond mater i reolwyr yr ysgol fyddai cadw safle ar agor yn y pen draw, a hwy fyddai'n gyfrifol pe bae unrhyw fater brys yn codi. Ni allent ddisgwyl i chi gymryd unrhyw gyfrifoldeb Cyfreithiol.

Rydym yn eich cynghori i gysylltu â Phrif Swyddfa UCAC i drafod eich sefyllfa ymhellach os oes unrhyw bryder.

## **7. Rwy'n poeni am rai disgyblion bregus a'r goblygiadau os byddant gartref ar y diwrnod dan sylw? Beth allaf ei wneud?**

Dylech rannu eich pryder gyda'r Swyddog Addysg yn yr Awdurdod.

## **8. Os bydd yr ysgol ar gau, a oes yn rhaid i'r staff nad ydynt yn streicio fod yn bresennol yn yr ysgol?**

Mae hawl gennych i ofyn i staff fod yn bresennol yn yr ysgol, ond nid oes gorfodaeth arnoch i wneud hynny. Os gofynnir i staff fod yn bresennol yn yr ysgol, mae'n bwysig eich bod yn trefnu iddynt nodi eu bod yn bresennol yn yr ysgol, er mwyn gwybod pwy yn union sydd ar safle'r ysgol at ddibenion diogelwch (e.e pe bai argyfrwng megis tân). Gallwch ofyn i staff weithio gartref ar y diwrnod dan sylw. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod gweithdrefn benodol o ran cadarnhau eu bod yn gweithio gartref.

Os nad oes Pennaeth neu Ddirprwy yn bresennol, yna dylid ystyried o ddifri priodoldeb gofyn i staff fod ar dir yr ysgol drwy asesiad risg cynhwysfawr ac ystyried holl oblygiadau cyfreithiol lechyd a Diogelwch.

## **9. Beth fydd yn digwydd os bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar fore'r streic? Cyfrifoldeb pwy yw'r unigolyn hwnnw?**

Os oes penderfyniad bod angen cadw safle'r ysgol ar agor i staff, nid oes modd gofyn iddynt wneud dyletswyddau y tu hwnt i'r arfer. Dylai asesiad risg fod yn ei le gyda gweithdrefn benodol yn yr achos yma.

## **10. A allaf ofyn i staff asiantaethau/cyflenwol i oruchwylio dosbarthiadau athrawon sy'n streicio?**

Barn glir UCAC yw na ddylid gwneud hyn. Mae'n anghyfreithiol i gyflogwyr yng Nghymru i gyflogi staff asiantaeth/cyflenwol yn lle athrawon/staff sy'n streicio. Byddech hefyd yn tansilio sefyllfa un o'ch cyd-weithwyr, ac yn siŵr o greu awyrgylch annymunol yn yr Ysgol. Mae tebygrwydd cryf y bydd yn ychwanegu at lwyth gwaith unigolion nad ydynt ar streic, a gan ei fod yn gofyn iddynt weithredu y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol, mae pob hawl ganddynt i wrthod cynorthwyo staff asiantaeth/cyflenwol mewn unrhyw ffordd.

## **11. Beth os oes gan aelod sy'n streicio gyfnod CPA ar ddiwrnod streic. A all ofyn am gael cyfnod CPA ar ddiwrnod arall yn lle hynny?**

Gall, ond bydd angen cyfrifo hyn ar sail faint o ddyddiau y bydd wedi bod yn y gwaith yn ystod yr wythnos dan sylw.

## **12. Beth os bydd yr undeb sy'n streicio wedi ffurfio llinell biced y tu allan i'r lle gwaith?**

Os oes picedu y tu allan i'r adeilad, disgwylir i athrawon/darlithwyr groesi'r llinell. Os yw athro/darlithydd yn penderfynu peidio â chroesi'r llinell biced, golyga hyn y bydd yn torri ei ch/gytundeb; yn ogystal â cholli cyflog, fe all arwain at ddisgyblu.

Os bydd aelod o'ch staff yn dweud ei fod yn teimlo ei fod/ei bod mewn perygl o gael ei (h)anafu wrth groesi llinell biced, yna dylai gysylltu â chi yn syth. Ni ddylai aelodau unrhyw undeb ymddwyn yn fygythiol tuag at unigolion sy'n croesi'r llinell biced er mwyn mynd i'w gwaith. Gallwch gael gair tawel gyda'r picedwyr a'u sicrhau na fydd aelodau undebau eraill yn cyflawni unrhyw dasgau ychwanegol ar ddiwrnod y streic. Mae cyfrifoldeb gan undeb y picedwyr i gynnal trefn ac i sicrhau nad oes tor cyfraith.

### 13. Beth os bydd aelod o staff yn sâl ar ddiwrnod pan fo undeb arall yn streicio ac o'r herwydd yn methu bod yn bresennol yn y gwaith?

Dylai ddilyn y canllawiau arferol ar gyfer hysbysu'r ysgol. Mae hawl gennych i ofyn am bapur meddyg swyddogol am y diwrnod hwnnw.

### 14. A all aelodau o undebau eraill streicio er mwyn dangos cefnogaeth i'r undeb sy'n streicio?

Mae'r gyfraith yn gwahardd gweithredu'n ddiwydiannol heb ddilyn trefn benodol sy'n cynnwys cynnal balot o'r aelodau perthnasol.

O ganlyniad, os yw'r sefydliad ar agor, disgwylir i athrawon nad ydynt yn aelod o undeb sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, weithio fel arfer a chyflawni eu dyletswyddau arferol. Os nad yw unigolyn yn aelod cymwys o'r undeb sy'n streicio, mae'n gweithredu'n anghyfreithlon os bydd yn streicio a bydd yn wynebu proses ddisgyblu o'r herwydd.

### 15. Beth os bydd aelod o'r wasg yn gofyn i mi wneud datganiad?

Byddwn yn eich cyngori i wneud datganiad syml yn nodi'r sefyllfa yn yr ysgol (ee os ydyw ar agor neu ar gau) wedi i chi gwblhau'r trefniadau angenrheidiol.

### 16. Beth os oes noson rieni neu ddigwyddiad arall ar galendr yr ysgol?

Bydd angen hysbysu'r rhieni na fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar y diwrnod dan sylw (os nad oes digon o aelodau staff ar gael i fynychu). Mewn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr undebau/staff, gallech ymdrechu i ail-drefnu, ond bydd angen bod yn sensitif os bydd rhai aelodau o staff eisoes wedi trefnu digwyddiad arall ar y noson honno.

## Os am arweiniad pellach, ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, [ioan@ucac.cymru](mailto:ioan@ucac.cymru)
- Iona Davies, Swyddog Polisi, [iona@ucac.cymru](mailto:iona@ucac.cymru)

### Yn ogystal mae modd cysylltu â:

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, [mererid@ucac.cymru](mailto:mererid@ucac.cymru)
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [jen@ucac.cymru](mailto:jen@ucac.cymru)
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [gareth@ucac.cymru](mailto:gareth@ucac.cymru)
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, [roger@ucac.cymru](mailto:roger@ucac.cymru)
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, [ywain@ucac.cymru](mailto:ywain@ucac.cymru)

27 Ionawr 2023



